# creu + ysbrydoli

UNIFY YN CYFLWYNO

## ADNODD CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Curriculum Team Tim Cwricwlwm
The Cardiff Commitment | Addewid Caerdydd
CARDIFF CAERDYDD
LLGC NLW LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# CEFNDIR

Yn byw yn y byd sydd ohoni, mae dysgwyr yn ymgolli yn y byd o'u cwmpas mwy nag erioed o'r blaen. Gyda hyn mewn golwg, sut gall addysgwyr ddefnyddio'r cwricwlwm Celfyddydau Mynegiannol newydd i drafod themâu fel cymuned, hunaniaeth a chynhwysiant?

I fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn, bu'r ymarferwyr creadigol o Unify yn cydweithio â myfyrwyr o Ysgol Hamadryad, Ysgol Grangetown ac Ysgol Uwchradd Cathays i greu celfwaith yn seiliedig ar y themâu hyn. Dros bum sesiwn, dilynodd pob ysgol broses greadigol er mwyn cynhyrchu gwaith celf yn seiliedig ar y themâu hyn wedi ei osod yn eu hysgolion. Dyma drosolwg o'r daith honno.

Nod yr adnodd hwn yw annog chwilfrydedd am "Cynefin," neu'r lle y mae ein dysgwyr yn teimlo eu bod yn perthyn. Yn ôl Ardal Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, mae Cynefin yn cwmpasu eu cymuned; ei phobl, ei golygfeydd, a'u synau. Trwy ymchwiliad, archwilio, ac arsylwi, bydd myfyrwyr yn profi holl amrywiaeth y gymuned o'u cwmpas.

# ASTUDIAETH ACHOS

# CYFLWYNO'R GYMUNED

CREU + YSBRYDOLI

I ddechrau'r sesiynau bu trafodaeth gyda'r dysgwyr am y gair "cymuned", "beth yw cymuned" ac yn bwysicach beth oedd cymuned yn ei olygu iddyn nhw. Gwnaed hyn trwy gyfres o weith gareddau a olygai sesiwn yn llawn cyffro a bwrlwm.

ee. "Cylchoedd Cymunedol" sy'n cynnwys dysgwyr yn creu cylch ac yn llenwi'r cylch gyda geiriau sy'n cynrychioli eu cymuned. Gall dysgwyr rannu eu hargraffiadau a'u syniadau, a gall athrawon hwyluso'r sgwrs ac annog y dysgwyr i feddwl am wahanol elfennau o gymuned.

ee. "Bingo cymunedol" sy'n ffordd hwyliog o helpu dysgwyr i nodi gwahanol agweddau o'u cymuned.the class. Encouraging thought, conversation & engagement.

Yna cyfarwyddo dysgwyr i dynnu eu cymuned eu hunain ar bapur A4 plaen a'i gyflwyno i'r dosbarth.

Gan annog meddwl, sgwrsio a chysylltu buom yn meithrin gwydnwch ar eu teithiau creadigol, gan chwalu ofnau wrth rannu a chynnig adborth.






## BETH YW CYMUNED

## ANNOG DYSGWYR I FEDDWL AM WAHANOL GYDRANNOL O GYMUNED

# CYFLWYNO'R GYMUNED

# AIL-DDIFFNIO'R GYMUNED



CREU + YSBRYDOLI

Gyda dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o gymuned, nod y sesiwn hon oedd ail-ddiffinio a dyfnhau eu dealltwriaeth wrth gwestiynau a dyrannu'r hyn maen cymuned yn ei olygu iddyn nhw.

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cysylltu cymuned â'u teulu agos a'u heiddo personol fel eu cartref, car teuluol neu archfarchnadoedd a hyd yn oed cadwyni bwyd fel Mcdondald's & KFC.

Yma rydym yn dechrau herio eu syniad o beth yw cymuned a sut mae ein gwaith wedi ei ysbrydoli gan gymuned. Aethon ni ati i ddangos rhywfaint o'n gwaith iddyn nhw a sut y cafodd ei ysbrydoli'n uniongyrchol gan y cysyniad o gymuned, ein cymuned ac yn bwysicach y bobl sy'n creu cymuned.

I orffen dechreuon ni dynnu lluniau o'n cymuned a'r bobl sy'n rhan o'n cymuned.



## AIL-DDIFFINIO'R GYMUNED

# TRIP MAES
## AC YSBRYDOLIAETH

CREU + YSBRYDOLI

Ar ôl sesiynau un a dau, aethom â'r dysgwyr ar daith maes o amgylch eu cymuned leol i ysbrydoli'r dysgwyr a'u gwneud yn fwy sylwgar o'u hamgylchoedd agos.

Gan ddangos prosiectau murlun iddyn nhw a grëwyd yn lleol ac egluro iddynt pam y gwnaethom greu'r murluniau hyn, posib oedd uwcholeuo pa mor bwysig y gall Celf fod wrth newid eu hamgylchedd uniongyrchol a helpu i greu ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth.

Bydd gan bob cymuned ei chelf ei hun, o graffiti heb ganiatâd, i osodiadau cymunedol, arddangosfeydd ffenestr siop i gelf stryd.

Mae pob cynrychiolaeth yn ddilys a diddorol a gellir eu harchwilio.

## TRIP MAES AC YSBRYDOLIAETH

# TRIP MAES AC YSBRYDOLIAETH

## TRIP MAES AC YSBRYDOLIAETH

# DATHLWCH Y CELFYDDYDAU TRWY GREU GYDA'R GYMUNED

# ARCHIF AC YMCHWIL




CREU + YSBRYDOLI

Bydd ymchwilio amrywiaeth o ffynonellau yn rhoi cyd-destun hanesyddol a diwylliannol i'r dysgwyr, yn ogystal â mewnwelediad i'r bobl a'r digwyddiadau a luniodd cymunedau Cymru.

Mae gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru dros 6 miliwn o lyfrau, llawysgrifau, mapiau, papurau newydd, ffotograffau, lluniau, archif sgrin a sain, a mwy i'ch helpu i ddarganfod ffeithiau, a safbwyntiau newydd ar eich pwnc.

Gallwch dderbyn mynediad i'r trysorau hyn ar-lein neu yn yr adeilad, a darganfod hanes, diwylliant, a threftadaeth Cymru a thu hwnt.

Darganfyddwch gasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## MYNEDIAD I ARCHIFAU HANESYDDOL AT DDIBENION YMCHWIL



# DYSGWYR YN DARGANFOD

# DYLUNIO MURLUN CYMUNEDOL

Erbyn hyn, dealla'r dysgwyr nad yw cymuned yn cael ei siapio gan adeiladau ond gan ei phobl. Wrth droi eto at greu gwaith celf sy'n adlewyrchu cymuned roedd y canlyniadau yn dra gwahanol i'r gwaith celf a grëwyd mewn sesiynau cynharach.

Pan ofynnon ni iddyn nhw gyflwyno eu gwaith fe allech chi weld newid mawr yn yr iaith roedden nhw'n ei defnyddio hyd yn oed.

Nid oeddent bellach yn sôn am eu teulu agos neu eiddo personol ond yn hytrach am bobl neu wasanaethau sy'n helpu eu cymuned i ffynnu.

O'r fan hon datblygwyd y syniadau allweddol ar gyfer y murlun.

## DYLUNIO MURLUN CYMUNEDOL

## DYLUNIO MURLUN CYMUNEDOL

# MURLUNIAU

CREU • YSBRYDOLI

# MURLUNIAU

Isod gwelir delweddau o'r murluniau a osodwyd gennym yn Ysgol Grangetown Primary ac Ysgol Hamadryad. Tynnwyd y gwaith celf a grëwyd gan y dysgwyr ynghyd yn un darn terfynol cydlynol gan Unify.

Yna, dros gyfnod o wythnos ym mhob ysgol gosodwyd y murluniau yn eu lle.

Os hoffech gael cymorth neu fewnbwn proffesiynol i greu eich murlun neu ddyluniadau terfynol eich hun, cysylltwch ag Unify trwy ein tîm Celfyddydau Mynegiannol ar Thom- WillA@hwbcymru.net.

DIESEL
MCKENZIE

CYMUNED GYTÛN
CYMUNED

# 2023

creu +

+ ysbrydoli

DIOLCH

ADNODD CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL